**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Tachwedd 2011**

**Ymateb drafft i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar newid dyddiad cyhoeddi Cynlluniau Gwella blynyddol yr Awdurdodau Tân ac Achub (ATA)**

**Adroddiad gan Dawn Docx, y Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi crynodeb i'r Aelodau o gynnwys dogfen ymgynghorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â dyddiad cyhoeddi cynlluniau gwella ATAau; a chynnig ymateb i'w gyflwyno erbyn y dyddiad cau, sef 28 Tachwedd 2011.

**Y Cefndir**

2 Ers sawl blwyddyn, mae'r Awdurdod wedi bod yn cyhoeddi ei Gynlluniau Corfforaethol ar adegau penodol yn y flwyddyn gynllunio yn unol â pha reoliadau bynnag sydd wedi bod mewn grym ar y pryd.

Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau/Cynlluniau Gwella

3 Rhwng 1999 a 2001 y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau oedd diwedd mis Mawrth – h.y. ddiwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ariannol oedd dan sylw yn y cynlluniau.

4 Roedd gofynion newydd rhwng 2002 a 2005 yn symud y dyddiad cyhoeddi i ddiwedd Mehefin – h.y. chwarter y ffordd trwy'r flwyddyn ariannol oedd dan sylw yn y cynlluniau.

5 Roedd newid pellach yn golygu bod ATAau, rhwng 2006 a 2009, yn cyhoeddi eu cynlluniau hyd yn oed yn hwyrach, sef ar ddiwedd mis Hydref – h.y. dros hanner y ffordd trwy'r flwyddyn ariannol oedd dan sylw yn y cynlluniau.

6 Ers eu dyfodiad yn 2004, mae'r Cynlluniau Integredig i Reoli Risg a'r Cynlluniau Lleihau Risg wastad wedi cael eu cyhoeddi cyn y cyfnod sydd dan sylw ynddynt.

7 Yn hytrach na chynnal dwy broses ar wahân ar gyfer cynllunio i wella a chynllunio i leihau risg, mae'r ATAau yng Nghymru wedi cael eu hannog gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu un broses sy'n cyfuno'r ddwy elfen.

8 Erbyn 2008 roedd y dyddiad cyhoeddi ar gyfer y ddau gynllun wedi cael eu cysoni, sef 31 Hydref, ond roedd y Cynllun Gwella yn parhau i ymwneud â'r flwyddyn gyfredol a'r Cynllun i Leihau Risg yn parhau i ymwneud â'r cyfnod i ddod.

9 Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 [Adran 15(7)] yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi Cynlluniau Gwella cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol yn ymarferol, naill ai:
a) wedi dechrau'r flwyddyn ariannol sydd dan sylw yn y cynllun; neu
b) wedi unrhyw ddyddiad arall a osodir gan Weinidogion Cymru trwy Orchymyn.

10 Roedd dyfodiad Gorchymyn ATAau (Cynlluniau Gwella) Cymru 2010 yn ei gwneud yn ofynnol fod ATAau, am y tro cyntaf, yn gallu cyhoeddi eu Cynllun Gwella a'u Cynllun i Leihau Risg gyda'i gilydd erbyn diwedd mis Hydref ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

## Cyflwyniad

11 Mae'r trefniadau cyfredol o gael dyddiad cau ym mis Hydref yn golygu bod Cynlluniau i Leihau Risg a Gwella yn cael eu cyhoeddi am y flwyddyn ariannol sydd i ddod cyn i'r Awdurdod gwblhau ei gynllunio ariannol am y flwyddyn honno. Mae'n bosib felly y gallai Cynlluniau i Leihau Risg a Gwella fod naill ai'n or-uchelgeisiol neu golli cyfle i gynnwys mwy.

12 Yn gynharach yn y flwyddyn, ceisiodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad symud y dyddiad cau ar gyfer cynlluniau cyfunol ymlaen i fis Mawrth, gyda'r bwriad o symud dyddiad cynlluniau 2012-13 ymlaen i Fawrth 2012. Fodd bynnag, cafodd yr Awdurdod wybod ym mis Mawrth na chafwyd y cydsyniad angenrheidiol i wneud y newidiadau, ac o'r herwydd roedd rhaid cyhoeddi cynlluniau 2012-13 erbyn mis Hydref 2011.

13 Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chynnig i gyflwyno newid yn y dyddiad cyhoeddi, a hwnnw'n dod i rym gyda Chynllun 2013-14, a fyddai'n cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr 2012 yn hytrach nag erbyn 31 Hydref 2012.

14 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i adolygu canllawiau'r Mesur Llywodraeth Leol 2009 yr oedd wedi eu cyhoeddi ar gyfer yr ATAau ym mis Mai 2010, ac i gynnal ymgynghoriad pellach yn hwyrach yn y flwyddyn i geisio barn ar y canllawiau diwygiedig hynny.

## Gwybodaeth

15 Mae'r ymateb drafft sydd yn Atodiad 1 yn:

a) cefnogi'r newid arfaethedig yn nyddiad cyhoeddi cynlluniau gwella;
b) pwysleisio'r angen oherwydd hynny i adolygu'n fuan ddogfennau'r canllawiau a gyhoeddwyd.

## Argymhelliad

16 Bod yr Aelodau'n cytuno ar yr ymateb fel y cafodd ei ddrafftio (gweler Atodiad 1) i'w gyflwyno erbyn y dyddiad cau, sef 28 Tachwedd 2011.

Atodiad 1

**<u>Ymateb drafft i Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad WG13412 Awdurdodau Tân ac Achub – Cyhoeddi Cynlluniau Gwella</u>**

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno gyda'r newid arfaethedig yn y gofyn i gyhoeddi Cynlluniau Gwella Awdurdodau Tân ac Achub cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn berthnasol iddi?**

Byddai ATA Gogledd Cymru yn croesawu newid dyddiad caeth 31 Hydref ar gyfer cyhoeddi Cynllun Gwella y flwyddyn ganlynol, gyda mwy o hyblygrwydd i gyhoeddi cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr.

**Rydym wedi gofyn un cwestiwn ynghylch y Gorchymyn arfaethedig. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw'n uniongyrchol iddynt, defnyddiwch y man gwag hwn i adrodd amdanynt:**

Mae ATA Gogledd Cymru yn cefnogi'r bwriad i uno elfennau o gynllunio i leihau risg a chynllunio i wella'n ehangach, o fewn un diwygiad i Ganllawiau Rhan 1 y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gyhoeddwyd i'r ATAau ym mis Mai 2010.

Felly, byddem yn hoffi pwysleisio pwysigrwydd cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig hyn mewn da bryd er mwyn caniatáu i'r ATAau wneud addasiadau lle bo angen er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Edrychwn ymlaen at allu cyfrannu at lunio'r diwygiad hwn, ac at ymateb i'r ymgynghoriad arfaethedig ymhell cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.